Ni Bia' Addysg Uwch.

Adeiladu grym gwleidyddol

UCU
University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk



Y diben

Trowch dystiolaeth leol am gyllid, swyddi, cyrsiau a darpariaeth yn gyfle i ymgysylltu'n barhaus â'r senedd – gyda chais clir, cyfarfod wedi'i baratoi, camau dilynol a chymorth cydgysylltiedig gan UCU.

Beth sydd yn y canllaw hwn?

1. Pam fod lobïo yn bwysig
2. Yr hyn y mae UCU yn gofyn amdano
3. Y cymorth sydd ar gael i ganghennau
4. Adeiladu eich map gwleidyddollleol
5. Paratoi'r achos
6. Trefnu'r cyfarfod
7. Mynychu'r cyfarfod
8. Troi cyfarfod yn gam gweithredu seneddol
9. Grŵp San Steffan UCU
10. Cyfarfodydd rhanbarthol ASau
11. Camau dilynol, cydgysylltu ac uwchgyfeirio
12. Rhestrau gwirio cyflym

1. Pam fod lobïo yn bwysig

Mae ariannu addysg uwch yn fater sy'n effeithio ar y DU gyfan, ond mae iddo ganlyniadau lleol. Mae prifysgolion yn gyflogwyr, yn addysgwyr, yn sefydliadau ymchwil, ac yn angorau i'w cymunedau. Mae canghennau felly mewn lle dai ddangos i wleidyddion beth mae tan-gyllido yn ei olygu yn ymarferol: swyddi mewn perygl, cyrsiau a darpariaeth dan bwysau, llwythi gwaith sy'n gwaethygu, effeithiau ar fyfyrwyr, a chanlyniadau i'r economi a'r gymuned leol.

Mae ymgyrch ehangach *Ni Bia' Addysg* yn seiliedig ar gryfhau grym canghennau a rhanbarthau, meithrin dylanwad gwleidyddol drwy lobïo ac ymgysylltu'n uniongyrchol, er mwyn newid y naratif o amgylch gwerth addysg uwch.

Mae'r llawlyfr hwn yn canolbwyntio'n benodol arlobîo aelodau o senedd San Steffan, ond mae llawer o'r cyngor yn berthnasol i aelodau o Senedd Cymru hefyd. Mae wedi'i gynllunio i wneud lobïo'n ymarferol: nodi'r cynrychiolwyr perthnasol, sicrhau cyswllt, paratoi achos lleol byr, gwneud cais penodol, a defnyddio'r adnoddau seneddol sydd ar gael i droi pryderon lleol yn gamau gweithredu.

AWGRYM:
Peidiwch â thrin cyfarfod fel y diwedd y daith. Dechrau'rberthynas yw cyfarfod gyda gwleidydd, gyda nifer o gamau i ddilyn.

2. Yr hyn y mae UCU yn gofyn amdano

Mae'r ymgyrch yn galw am y canlynol:

- Rhagor o gyllid, ar unwaith, ar gyfer addysg uwch.
- Diogelwch ar gyfer swyddi, cyflogau a phensiynau mewn prifysgolion.
- Ymrwymiad i drawsnewid y model ariannu hirdymor, fel bod y sector yn dibynnu llai ar ffioedd myfyrwyr.
- Dull tecach o ymdrin â staff a myfyrwyr rhyngwladol.
- Trefniadau cryfach ar gyfer llywodraethu'r sector.

Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn llawlyfr yr ymgyrch ac maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer lobïo lleol ledled y DU.

Dylai eich cangen gysylltu'r gofynion cenedlaethol hyn â nifer bach o enghreifftiau pendant o'ch sefydliad a'ch etholaeth. Dewch o hyd i engrheifftiaupenodol, wedi eu cefnogi gyda thystiolaeth, a sydd yn hawdd i'r gwleidyddei ailadrodd.


ersity and College Union
UCU
EQUALITY THROUGH EDUCATION AND
FAIR FUNDING
UCU FAIR PAY
LOVE OUR COLLEGES
OWLEDGE IS POWER
UCU
Protect the right to strike
UCU
Protect the right to strike
TUC

3. Y cymorth materion cyhoeddus sydd ar gael i ganghennau

Gall tîm materion cyhoeddus UCU gefnogi canghennau gyda gwaith seneddol ymarferol. Dylai canghennau ddefnyddio'r cymorth hwnnw'n gynnar, yn hytrach nag aros nes bod cyfarfod eisoes wedi'i drefnu.

Y gefnogaeth sydd ar gael

- Cysylltiadau ag ASau – cymorth i gysylltu â'r AS neu'r ASau perthnasol ar y cychwyn cyntaf.
- Gwybodaeth i ASau – dogfennau briffio cryno, wedi'u teilwra, sy'n nodi gofynion yr ymgyrch genedlaethol a'r dystiolaeth leol y gall AS eu defnyddio mewn cyfarfodydd, gohebiaeth neu weithgarwch seneddol.
- Paratoi ar gyfer cyfarfod – cymorth gyda'r agenda, negeseuon allweddol, cwestiynau, tystiolaeth ategol a threfnu siaradwyr.
- Cymorth personol ar gyfer cyfarfodydd, lle bo angen – gall staff materion cyhoeddus gefnogi cynrychiolwyr cangen yn uniongyrchol lle mae'r amgylchiadau a'r capasiti yn gwneud hyn yn briodol.
- Yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, gall eich swyddog rhanbarthol helpu hefyd.
- Cwestiynau Seneddol – helpu i nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig neu lafar ar y cyd-destun lleol a'r argyfwng ariannu ehangach.
- Cwestiynau Brys – cymorth gyda chyflwyno'r achos dros Gwestiwn Brys lle mae mater seneddol digon brys a chyfle gweithdrefnol perthnasol.
- Cynigion Cynnar-yn-y-Dydd (Early Day Motions) – helpu i lunio a chyflwyno Cynigion Cynnar-yn-y-Dydd sy'n tynnu sylw'r Senedd at fater addysg uwch lleol a rhoi cyfle i ASau ei gefnogi.
- Mynediad at Grŵp San Steffan UCU – cefnogi canghennau i gysylltu materion lleol â gwaith Grŵp Seneddol UCU yn San Steffan.
- Cyfarfodydd ASau rhanbarthol – mae UCU yn sefydlu cyfarfodydd rhanbarthol i ddod â grwpiau o ASau ynghyd ynghylch cyllid addysg uwch a phwysau ar y sector lleol.
- Cydgysylltu – helpu i gysylltu gweithgarwch cangen â gweithgarwch ymgyrchu cenedlaethol a changhennau eraill lle mae materion yn gorgyffwrdd.

SUT I OFYN AM GYMORTH

E-bostiwch politics@ucu.org.uk i gael cymorth gyda lobïo'ch AS neu drefnu cyfarfod gydag ASau sy'n lleol i'ch gweithle. Dylech gynnwys cydweithwyr perthnasol yn y gangen a'ch swyddfa ranbarthol fel bod gweithgarwch gwleidyddol yn weladwy ac yn cael ei gydgysylltu ar draws UCU.

4. Adeiladu eich map seneddol lleol

Dechreuwch gyda'r cynrychiolwyr sydd â chysylltiad uniongyrchol â'ch sefydliad a'i gymuned. Nid creu rhestr o ASau yw'r nod, ond deall pwy all siarad yn uniongyrchol am y mater lleol a pha lwybr seneddol sydd ar gael. Mewn anghydfodau yn y gorffennol – Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn fwyaf nodedig – mae ASau nad oeddem efallai wedi ystyried bod eu safbwyntiau yn cyd-fynd â'n amcanion wedi cefnogi ein hymgyrch, felly peidiwch â diystyru unrhyw un.

Nodwch

- Yr AS sydd yn cynrychioli eich prif gampws neu weithle.
- ASau eraill cyfagos, yn enwedig os oes cyfleusterau prifysgol, poblogaethau myfyrwyr, safleoedd ymchwil, neu nifer sylweddol o staffyn ei etholaeth.
- ASau sydd wedi ymgysylltu â'ch sefydliad neu â materion addysg uwch yn y gorffennol.
- Cynrychiolwyr rhanbarthol neu ddatganoledig perthnasol lle mae'r cyd-destun lleol yn golygu bod hyn yn briodol.
- Gwleidyddion sydd yn gefnogol i UCU, ac all helpu i adeiladu perthynas gyda aelodau lleol (e-bostiwch politics@ucu.org.uk am gymorth).

Mapio'r mater lleol Esboniwch:

- Beth sy'n digwydd yn eich sefydliad?
- Faint o staff, myfyrwyr, cyrsiau neu wasanaethau yr effeithir arnynt?
- Beth yw'r effaith economaidd neu gymunedol leol?
- Beth yw'r broblem benodol, sydd yn galw am help eich AS?
- Pa fecanwaith seneddol allai symud y mater ymlaen?

Mae llawlyfr yr ymgyrch yn argymell mapio rhwydweithiau lleol, rhanddeiliaid a llwybrau i ddylanwadu, i gynorthwyo gyda'r gwaith yma.

5. Paratoi'r achos

Cadwch y briff yn fyr

Anelwch at friff dwy dudalen ar y mwyaf lle bynnag y bo modd. Dylai AS allu deall y mater yn gyflym ac ailddefnyddio'r deunydd. Gall y tîm materion cyhoeddus helpu i baratoi neu deilwra'r briff.

- Y broblem ledled y DU: un paragraff byr yn esbonio'r sefyllfa gyllidol.
- Y dystiolaeth leol: tair i bum ffaith am eich sefydliad neu'ch etholaeth.
- Yr effaith ddynol: un neu ddwy enghraifft fer gan aelodau neu fyfyrwyr, gyda eu caniatâd.
- Yr arwyddocâd lleol: yr effaith ar gyflogaeth, sgiliau, ymchwil, gwasanaethau cyhoeddus, diwylliant neu'r economi.
- Y cais: dim mwy na thri cham gweithredu penodol ar gyfer yr AS.
- Y cam nesaf: dywedwch beth yr hoffech i'r AS ei wneud ar ôl y cyfarfod.

Sicrhewch fod y cais yn gadarn

Beth am ofyn i AS: godi'r mater gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg; gyflwyno cwestiwn seneddol ysgrifenedig; ofyn am gwestiwn llafar lle y bo'n briodol; gefnogi neu noddi Cynnig Cynnar-yn-y-Dydd codi'r mater lleol drwy Grŵp Seneddol UCU; godi'r mater lleol yn uniongyrchol gyda'ch Is-Ganghellor neu'ch Pennaeth, mynychu cyfarfod rhanbarthol o ASau; neu gyfarfod ag UCU eto i drafod cynnydd.

AWGRYM: Gofynnwch i'ch AS a yw'n aelod o Grŵp Seneddol UCU a chysylltwch ei swyddfa â politics@ucu.org.uk os nad ydyw.

6. Trefnu'r cyfarfod

Defnyddiwch y gangen yn gyntaf

1. Cytunwch pwy fydd yn arwain.

2. Dewiswch ddau neu dri siaradwr yn hytrach nag anfon grŵp mawr.

3. Anfonwch gais byr yn esbonio pwy ydych chi, y mater lleol, a diben penodol y cyfarfod.

4. Cynigiwch ddyddiadau ac amseroedd a byddwch yn glir ynghylch a ydych chi'n gofyn am gyfarfod yn swyddfa'r etholaeth neu yn y gweithle.

5. Dylech gynnwys cydweithwyr yn y gangen a'r swyddfa ranbarthol yn y cais neu mewn gohebiaeth fewnol, fel bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd.

6. Os oes angen help arnoch i sefydlu cysylltiad, gofynnwch i'r tîm materion cyhoeddus am gymorth.


ucu
PROTECT
EDUCATION
NOW
University and College Union
PROTECT
EDUCATION


University and College Union
ucu
WE ARE
THE
UNIVERSITY
SAVE
ADULT
EDUC-
ATION
PROTECT
EDUCATION
NOW
PROTECT
EDUCATION
NOW

7. Mynychu'r cyfarfod

Strwythur 30 munud a awgrymir

- **2 funud** – cyflwyniadau a pham mae'r gangen wedi gofyn am gyfarfod.
- **5 munud** – yr achos ariannu penodol a gofynion ymgyrch UCU.
- **10 munud** – tystiolaeth leol a phrofiadau personol.
- **8 munud** – y ceisiadau i'r senedd: cytuno ar yr hyn y gall yr AS ei wneud.
- **5 munud** – cadarnhau'r camau nesaf, yr amserlen a phwy fydd yn cymryd camau dilynol.

Rolau

- **Cadeirydd:** sicrhau bod y cyfarfod yn symud yn ei flaen ac yn dychwelyd at y cais.
- **Siaradwr am dystiolaeth leol:** yn esbonio'r hyn sy'n digwydd yn y sefydliad.
- **Llais aelodau/myfyrwyr:** yn rhoi enghraifft gryno uniongyrchol.
- **Arweinydd seneddol:** yn gwneud ac yn cofnodi'r ceisiadau penodol.
- **Unigolyn sy'n cadw cofnodion:** cofnodi ymrwymiadau, enwau, terfynau amser a chamau dilynol.

AWGRYM: PEIDIWCH Â GADAEL HEB GAIS

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben, gofynnwch: "A wnewch chi wneud X?" Yna cadarnhewch yn union beth yw X, pryd y bydd yn digwydd, ac a all y gangen ddarparu unrhyw beth sydd ei angen i'w gefnogi. Cysylltwch â politics@ucu.org.uk os oes angen.

8. Troi cyfarfod yn gam gweithredu seneddol

Cwestiynau ysgrifenedig a llafar

Gall achos lleol gael ei droi'n gwestiwn seneddol yn aml. Gall y tîm (politics@ucu.org.uk) helpu i nodi cwestiwn priodol, drafftio geiriad, a chysylltu'r mater lleol â'r ymgyrch ehangach.

Strwythur posibl

- Enwch gyd-destun y sefydliad lleol neu'r etholaeth lle y bo'n berthnasol.
- Nodwch y broblem bendant.
- Gofynnwch beth mae'r llywodraeth yn ei wneud, yn bwriadu ei wneud, neu'n ei asesu.
- Ceisiwch osgoi cynnwys sawl mater digyswllt mewn un cwestiwn.

Cwestiynau Brys

Pan fydd mater yn wirioneddol ddybryd a bod yr amgylchiadau seneddol yn golygu bod Cwestiwn Brys yn briodol, gall y tîm materion cyhoeddus help cangen i ddatblygu'r achos ar gyfer un a chefnogi cysylltiad ag ASau. Mae Cwestiwn Brys yn weithdrefn seneddol, felly bydd amseriad, perthnasedd a phenderfyniad y Llefarydd yn bwysig; nid yw cefnogaeth gan UCU yn gwarantu y bydd un yn cael ei gymeradwyo.

Cynigion Cynnar-yn-y-dydd

Gall tîm materion cyhoeddus UCU helpu canghennau i ddatblygu cynnig cynnar-yn-y-dydd am eu cyd-destun lleol a gweithio gydag AS i'w gyflwyno. Y diben yw rhoi mater sydd wedi'i ddiffinio'n glir ar y cofnod seneddol a rhoi cyfle i ASau eraill ychwanegu eu henwau.

Llythyrau ac ymgysylltu â gweinidogion

Gall AS hefyd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r gweinidog perthnasol. Mae briff lleol byr yn gwneud hyn yn haws: rhowch y ffeithiau, y cwestiwn neu'r pryder penodol, a'r camau rydych am i'r llywodraeth eu cymryd i'r AS.

Gellir defnyddio llythyr gan ysgrifennydd cyffredinol neu lywydd yr undeb i ategu hyn os yw'n briodol.

9. Grŵp San Steffan UCU

Sefydlwyd Grŵp San Steffan UCU ym mis Ionawr 2026. Mae'n darparu fforwm seneddol pwysig lle gall UCU gysylltu materion addysg uwch lleol ac ar draws y sector ag ASau yn San Steffan.

Dylai canghennau ddefnyddio'r Grŵp fel un rhan o gynllun lobïo ehangach, yn hytrach na'i drin fel rhywbeth sy'n cymryd lle gweithgarwch ymgysylltu ag etholaethau. Gall y tîm materion cyhoeddus helpu canghennau i gysylltu mater lleol â'r Grŵp, datblygu cais seneddol, a nodi cyfleoedd ar gyfer cwestiynau, cynigion cynnar-yn-y-dydd a thrafodaeth seneddol ehangach.

Yr hyn y dylid gofyn am gymorth y tîm materion cyhoeddus gydag ef

- P'un a yw eich mater lleol yn addas i'w drafod drwy'r Grŵp Seneddol.
- Pa fecanwaith seneddol sydd fwyaf addas ar gyfer y mater.
- Llunio cynnig cynnar-yn-y-dydd neu gwestiwn seneddol.
- Helpu AS i ddeall y dystiolaeth leol yn gyflym.
- Cysylltu ASau sy'n wynebu pwysau tebyg mewn perthynas ag addysg uwch ar draws etholaethau gwahanol. Os bydd angen help arnoch i wneud hynny, e-bostiwch politics@ucu.org.uk

10. Cyfarfodydd rhanbarthol ASau

Mae UCU yn sefydlu cyfarfodydd rhanbarthol o grwpiau o ASau ynghylch cyllid addysg uwch a'r pwysau sy'n wynebu prifysgolion yn eu hardaloedd. Bwriedir i'r cyfarfodydd hyn gynnig cyfle i ASau glywed gan UCU ar y cyd, cymharu tystiolaeth leol, a thrafod yr achos ariannu ehangach.

Gall canghennau helpu i wneud y cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol drwy ddarparu gwybodaeth leol gryno a nodi'r cwestiynau neu'r enghreifftiau penodol y mae angen i ASau eu clywed.

Gwaith paratoi canghennau

- Anfonwch ddisgrifiad byr o'r mater lleol at y tîm materion cyhoeddus.
- Darparwch y ffeithiau lleol cryfaf, wedi'u gwirio, ac un neu ddwy enghraifft eglurhaol.
- Nodwch yr hyn yr hoffech i ASau ei wneud ar ôl y cyfarfod.
- Rhowch wybod i'r tîm materion cyhoeddus am unrhyw gydberthnasau perthnasol sydd eisoes yn bodoli ag ASau.
- Cofiwch gynnwys eich swyddfa ranbarthol a'ch swyddfa genedlaethol ddatganoledig fel y gellir cydlynu gweithgarwch y gangen â gwaith rhanbarthol.

11. Camau dilynol, cydgysylltu ac uwchgyfeirio

Mae llawlyfr yr ymgyrch yn pwysleisio y dylai lobïo fod yn rhan o strategaeth drefnu ehangach ac y dylai tactegau ennyn cefnogaeth, arddangos grym a rhoi pwysau.

O fewn 48 awr

- Anfonwch neges fer yn diolch.
- Cadarnhewch ymrwymiadau'r AS yn ysgrifenedig.
- Anfonwch unrhyw friff, tystiolaeth neu ddata a addawyd.
- Cofiwch gynnwys cydweithwyr y gangen a'r swyddfa ranbarthol.
- Rhannwch unrhyw adborth y gallwch â'ch aelodau. Gallai hyn fod yn ddiweddariad i'r gangen drwy e-bost, drwy rwydwaith cynrychiolwyr, cyfarfod cangen, neu gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yna olrhain y camau gweithredu

- A yw'r cwestiwn wedi cael ei gyflwyno?
- A yw'r cynnig cynnar-yn-y-dydd wedi cael ei gyflwyno a'i ddosbarthu i gael llofnodion?
- A yw'r AS wedi ysgrifennu at y gweinidog?
- A yw'r AS wedi codi'r mater yn gyhoeddus neu yn y Senedd?
- A yw'r AS wedi mynychu neu wedi cytuno i fynychu cyfarfod rhanbarthol?
- Pa ymateb y mae'r llywodraeth wedi'i ddarparu?
- Beth yw'r cais penodol nesaf?

Uwchgyfeirio drwy weithgarwch, nid gohebiaeth yn unig

Os na fydd unrhyw gamau gweithredu yn deillio o gyfarfod, ystyriwch sefydlu grŵp o gynrychiolwyr o'r etholaeth, ymweliad â'r gweithle, cyfarfod cyhoeddus, tystiolaeth bellach, neu ddull cydgysylltiedig gyda changhennau eraill. Mae llawlyfr yr ymgyrch yn disgrifio uwchgyfeirio fel cyfres o gamau gweithredu sy'n cynyddu o ran gweledigaeth ac effaith, gyda chefnogaeth staff cenedlaethol a rhanbarthol.

AWGRYM: CYDGYSYLLTWCH BOB CAM

Dylech gynnwys cydweithwyr yn y gangen a'ch swyddfa ranbarthol mewn gohebiaeth wleidyddol lle bynnag y bo'n ymarferol. Mae hyn yn helpu UCU i lunio darlun byw o weithgarwch seneddol, osgoi dyblygu dulliau, a chysylltu gwaith lleol â chyfleoedd rhanbarthol a chenedlaethol.

Rydym wedi dwyn ynghyd fanylion yr holl anghydfodau ar ein map undod. Gallwch wneud cais i'ch anghydfod gael ei ychwanegu a chysylltu ag ef yma.


UNITY
SUPPORT
THE
STRIKE
CASUALISATION


UNITY IS STRENGTH
RESIST
RACISM
ucu
OFFICIAL
DISPUTE
THE PAYGAP
FAIR
PAY
DOESN'T
GO
OUT
OF
STYLE
SAVE
THE
ARTS

12. Rhestrau gwirio cyflym

Cyn cysylltu ag AS

- Rydym yn gwybod beth yw'r broblem leol.
- Mae gennym dair i bum ffaith gref.
- Mae gennym gysylltiad clir â'r ymgyrch genedlaethol.
- Mae gennym un i dri chais penodol.
- Rydym yn gwybod pwy fydd yn arwain y cyswllt.
- Rydym wedi cynnwys cydweithwyr yn y gangen a'r swyddfa ranbarthol yn fewnol.
- Rydym wedi cysylltu â'r tîm materion cyhoeddus os oes angen cymorth.

Cyn y cyfarfod

- Wedi anfon y briff.
- Wedi cytuno ar y siaradwyr.
- Wedi paratoi cwestiynau ac ymatebion tebygol.
- Wedi cytuno ar gamau gweithredu seneddol penodol.
- Wedi neilltuo unigolyn i gadw cofnodion.
- Wedi trefnu cymorth gan y tîm materion cyhoeddus os oes angen.

Ar ôl y cyfarfod

- Wedi cofnodi ymrwymiadau.
- Wedi anfon camau dilynol.
- Wedi datblygu cwestiynau / cynnig cynnar-yn-y-dydd / llythyr gyda'r tîm materion cyhoeddus.
- Wedi diweddaru cydweithwyr yn y swyddfa ranbarthol a'r gangen.
- Wedi cytuno ar y camau gweithredu nesaf a'r dyddiad.
- Wedi cofnodi'r canlyniad fel y gall lywio gwaith seneddol ehangach UCU.

Cysylltiadau a chymorth

I gael cymorth gyda lobïo'ch AS neu drefnu cyfarfod gydag ASau sy'n lleol i'ch gweithle:

Tîm Materion Cyhoeddus UCU politics@ucu.org.uk

I gael cymorth ehangach gydag ymgyrch *Ni Bia' Addysg*, cysylltwch â campaigns@ucu.org.uk ac ewch i wefan yr ymgyrch: educationitsours.org.uk



Ni Bia' Addysg

University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk

Cynhyrchwyd gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, Carlow Street, London NW1 7LH